**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Mike Wedderspoon
Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyflawni Strategol
Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban

David Ritchie
Cyfarwyddwr Gweithredol Partneriaethau ac Ymgysylltu
Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban

25 Mawrth 2024

Annwyl Mike a David,

**Ymchwiliad i Fanc Datblygu Cymru – cais am wybodaeth yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 21 Mawrth**

Roedd yr Aelodau'n ddiolchgar iawn ichi am roi tystiolaeth inni mewn sesiwn ddefnyddiol iawn yr wythnos diwethaf.

Yn dilyn y sesiwn honno, mae'r Pwyllgor yn awyddus i gael rhagor o fanylion am y 31 o fuddsoddiadau y mae Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban (SNIB) wedi'u gwneud hyd yma. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn pe gallech ddarparu'r wybodaeth a ganlyn ar gyfer pob un o'r 31 o fuddsoddiadau:

- Y swm a fuddsoddwyd gan SNIB (ynghyd â chyfanswm maint y buddsoddiad os yn briodol)
- Maint y busnes a gafodd y buddsoddiad
- Sector y busnes a gafodd y buddsoddiad
- Nifer y swyddi a gaiff eu creu

Cynhelir sesiynau tystiolaeth lafar olaf y Pwyllgor ar gyfer yr ymchwiliad hwn ddydd Mercher 24 Ebrill. Byddai’n ddefnyddiol, felly, pe gallech ymateb cyn hynny. Os daw eich gwybodaeth i law ar ôl y dyddiad hwnnw, mae’n bosibl y bydd o ddefnydd o ran llywio adroddiad y Pwyllgor beth bynnag.

Diolch eto am roi o’ch amser i ymgysylltu â'n gwaith.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg